CYNGOR CYMUNED BRITHDIR A LLANFACHRETH

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanfachreth
Nos Fawrth, Tachwedd 21, 2017 am 7:30 o'r gloch.

AGENDA

1. Croeso'r Cadeirydd

2. Ymddiheuriadau:

3. Datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 17, 2017

5. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 17, 2017

b. Galwad ffôn (26/10/2017) oddi wrth Eira Humpries yn rhoi gwybod bod y fainc yn Brithdir (oedd i gael ei drwsio gan Meurig Ashton) wedi ei symud o'r safle gan weithwyr oedd yn gweithio ar ran Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Y swyddogion yn yr Adran sydd yn gyfrifol am hyn yw Mr Michael Evans / Mr Rees Evans. Y bwriad yw cael trwsio'r fainc a'i osod mewn lle newydd. Rhoddwyd gwybod i Peredur Jenkins a Meurig Ashton..

Eitem 10.a. Llythyr ateb (7/11/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd:

1. Maent am glirio'r dŵr oddi ar ffordd Rhiwfelen, Abergeirw ac wedyn asesu'r ffordd.

2. Maent am agor y draen sydd dan ffordd rhwng Clywedog Lodge a mynedfa i Dolwartheg.

3. Maent am dorri'r coed o amgylch yr arwydd 'Give Way' sydd ar gyffordd Drwsynant.

4. Mae ein cais am yr angen agor ffos rhwng Dolfeili a Glanwnion, Rhydymain oherwydd mae dŵr yn sefyll ar y ffordd wedi ei phasio i Uned Cefnffyrdd ym Mangor.

5. Bydd Swyddog yn cael golwg ar y llwybr cyhoeddus ar dir March Gwyn, Brithdir pan fydd amser yn caniatáu.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (19/10/2017) oddi wrth Peredur Jenkins yn rhoi gwybod bod Swyddog o Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf am roi gwybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â CCG yn gwerthu tir wrth dai Hengaer.

b. Llythyr (24/10/2017) oddi wrth Marie Curie. Maent angen cyfraniad ariannol i gynorthwyo eu gwasanaeth.

c. Llythyr (24/10/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae dyddiad Pwyllgor Ardal Meirionnydd wedi newid i ddydd Mawrth, Tachwedd 28.

ch. Llythyr (26/10/2017) oddi wrth Peredur Jenkins yn rhoi gwybod bod Toiledau Rhydymain ar fin cael ei werthu drwy dendro.

d. Llythyr (26/10/2017) oddi wrth Menter Egni Abergeirw. Amgáu mae Agenda eu Cyfarfod Blynyddol am 8.00yh ar ddydd Gwener, 10 Tachwedd 2017 yn Neuadd Rhydygorlan. Mae croeso i gynrychiolydd o'r Cyngor fod yn bresennol.

Amgáu hefyd mae Adroddiadau Blynyddol 2014/15, 2015/16 a 2016/17 a Chofnodion Blynyddol cynhaliwyd ar 18/7/2014.

dd. Llythyrau (8 a 10/11/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Coed y Brenin Trial Duathlon, 2017 yn cymryd lle ar ddydd Sul, Tachwedd 12, 2017. Mae hyn yn golygu bydd rhai llwybrau cyhoeddus ar gau ar y diwrnod.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Galwad ffôn (18/10/2017) oddi wrth y Parc yn holi lle'r oedd y 4 coed afal i fynd. Penderfynwyd derbyn y cynnig o'r coed yn ein cyfarfod mis Mai.

Mae Meithrinfa Seren Fach wedi derbyn 2 ac Ysgol Bro Idris, Rhydymain wedi derbyn 2. Mi fydd ychydig o ffŷs i'w plannu.

b. Ceisiadau cynllunio.

1. NP5/54/25A. Cynllun trydan dŵr arfaethedig i gynhyrchu hyd at 34kw yn cynnwys argae, pibell tanddaearol, adeilad tyrbin, all-lif a chysylltiad trydan grid tanddaearol. Afon Ceirw, Cyplau, Abergeirw.

2. NP5/54/440B. Gosod tanciau septig. Ysguboriau Rhif 2 a 3, Coed Brithgwm, Brithdir.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (20/10/2017) oddi wrth Neuadd Rhydygorlan yn diolch am ein rhodd o £500 at y neuadd. Amgáu mae Mantolen ar gyfer 2016-2017.

b. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Hydref 2017: £1,136.59.

c. Balans yn y banc ar 29 Hydref 2017: £6,898.26

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

10. Unrhyw fater arall

Yn gywir,

H.M. Edwards, Clerc